# ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL
# DALGYLCH YSGOL BONTNEWYDD



| ADRAN | DISGRIFIAD | RHIF TUDALEN |
|---|---|---|
| **1** | **Crynodeb Gweithredol** | **3** |
| **2** | **Yr Achos Strategol** | **3** |
| **3** | **Yr Amgylchedd Adeiledig** | **5** |
| **4** | **Yr Achos Economaidd** | **7** |
| **5** | **Yr Achos Masnachol** | **13** |
| **6** | **Yr Achos Ariannol** | **14** |
| **7** | **Yr Achos Rheoli** | **15** |
| Atodiad A | Achos Busnes - Ffurflen Crynodeb Gweithredol. | |
| Atodiad B | Tabl Buddion y Rhaglen | |
| Atodiad C | Rhagolwg Cyllidol | |

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Cyflwyniad

Cyfeiriwch at **Atodiad A** *Achos Busnes - Ffurflen Crynodeb Gweithredol.*

# 2. Achos Strategol

Lleolir pentref Bontnewydd 1.9 milltir i'r de o Gaernarfon ar yr A487. Mae'r ysgol yng nghanol y pentref ac mae'n orlawn ar hyn o bryd. Mae cyfleusterau cymunedol wedi eu lleoli yn yr hen ysgol sydd yn adeilad Fictoraidd gerllaw'r safle presennol.

2.1 **Yr achos dros newid:** Mae'r cyfleuster ysgol presennol, a adeiladwyd yn y 1970au yng nghyflwr B, adeiladwaith cynllun agored nad yw'n addas ar gyfer arferion addysgol presennol, ac mae'n orlawn. Daw pwysau pellach o ddyraniadau ar gyfer tai yn y dalgylch, gyda 78 o anheddau ychwanegol naill ai wedi'u hadeiladu yn y 3 blynedd ddiwethaf neu wedi cael caniatâd cynllunio. Mae'r pentref wedi elwa yn sylweddol yn dilyn agor y ffordd osgoi newydd Caernarfon i Bontnewydd sydd yn debygol o ddenu mwy o deuluoedd gyda phlant oedran cynradd i'r dalgylch dros y blynyddoedd nesaf oherwydd yr effaith positif ar yr amgylchedd lleol.

Mae'r ysgol gyda'r cyfleusterau cymunedol cyfagos (cyflwr C) yn cynnig y cyfle ar gyfer:

- datblygu ysgol a chanolfan gymunedol integredig newydd mewn lleoliad da
- cymryd agwedd arloesol at adeiladu, lleihau carbon corfforedig ac allyriadau carbon yng nghylch bywyd yr adeilad
- gwneud y mwyaf o gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Bydd gweithrediad yr adeilad yn ddi-garbon, gan archwilio'r potensial i gynhyrchu trydan dros ben ar y safle at ddefnydd cymunedol. Bydd yn safle arddangos lle mae'r cynhyrchu trydan yn weladwy ac yn cael ei ddathlu. Bydd carbon corfforedig yn cael ei leihau drwy wneud y mwyaf o ailddefnyddio deunyddiau o'r adeiladau presennol a rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio deunyddiau o ffynonellau lleol. Mae hyn yn cyd-fynd â **strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' Cyngor Gwynedd (2009)** ac ymrwymiad yr Awdurdod i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Mae opsiynau ar gyfer lleoliad y cyfleuster newydd yn cael eu trafod yma gyda'r safle a ffefrir yng nghanol y pentref, yn wastad, gyda mynediad da, wedi'i glustnodi yn y cynllun addysg lleol a heb ei gyfyngu gan berygl llifogydd.

Mae'r prosiect hwn yn dibynnu ar ymrwymiad llawn yr ysgol a mewnbwn y gymuned ehangach o'r briff cychwynnol i ddylunio, adeiladu a gweithredu. Rydym wedi dechrau ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol yn y gymuned. Bydd hyn yn parhau drwy gydol y broses er mwyn creu ysgol sydd wrth galon y gymuned, sy'n hygyrch i bawb waeth beth fo'u hoedran a/neu anabledd.

2.2 **Demograffeg / Dalgylch / Galw**

Mae gan y Bontnewydd boblogaeth o 1,162 gyda rhwydweithiau teithio ardderchog i Gaernarfon, Bangor a'r drafforddd A55 i gyfeiriad y dwyrain ac i'r gorllewin tuag at Benrhyn Llŷn a Phwllheli. Mae'r ffordd osgoi newydd rhwng Caernarfon-Bontnewydd yn debygol o wneud Bontnewydd – sydd â chymysgedd o dai cymdeithasol a phreifat, stadau tai newydd a thai stryd traddodiadol yn leoliad deiniadol iawn i deuluoedd sydd â phlant ifanc.

Mae angen brys am fwy o ddarpariaeth addysgol yn y lleoliad hwn oherwydd datblygiadau tai diweddar ac arfaethedig. Ym mis Medi 2022, roedd Ysgol Bontnewydd 9 lle yn uwch na'r capasiti. Mae cyfanswm o 53 o anheddau (2-4 ystafell wely) wedi eu hadeiladu yn y dalgylch yn y 3 blynedd ddiwethaf, gyda datblygiadau pellach wedi eu cynllunio.

Mae'r ysgol wedi ei lleoli'n strategol ar y prif lwybr cymudo i Gaernarfon a Bangor sy'n ychwanegu at y pwysau o ddalgylchoedd cyfagos ar gapasiti disgyblion. Bydd ysgolion lleol eraill sy'n sylweddol is na'u capasiti yn cael eu hystyried yn ystod y broses hon. Yn ogystal â'r ffactorau hyn, rydym yn caniatáu ar gyfer cynnydd pellach o 10% yn niferoedd disgyblion ar sail arfer dda a'n profiad o adeiladu ysgolion newydd yng Ngwynedd.

2.3 **Darpariaeth Gofal Plant / Blynyddoedd Cynnar**

Mae darpariaeth blynyddoedd cynnar wedi'i lleoli ar hyn o bryd yn yr hen adeilad ysgol ble mae angen moderneiddio'r adnoddau yn sylweddol. Bydd gofal plant cofleidiol sydd wedi'i integreiddio i'r cyfleuster newydd yn bodloni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu 30 awr yr wythnos o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar. Bydd y mannau a ddynodir hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer clybiau brecwast ac ar ôl ysgol a chynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau.

Mae Gwynedd yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sector gofal plant, yn benodol i sicrhau darpariaeth lawn ac effeithiol ar gyfer y Gymraeg, e.e. Mudiad Meithrin, yn cryfhau ac ehangu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau llwybr parhaus i addysg ddwyieithog, yn unol â Pholisi Iaith yr Awdurdod a Pholisi 2050 Llywodraeth Cymru.

Mae holl blant meithrin/tair oed Gwynedd yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y lleoliadau nas cynhelir. Bydd Cyngor Gwynedd yn sicrhau bod darpariaeth yn y Bontnewydd yn parhau i fod trwy gyfrwng y Gymraeg.

2.4 **Addysg Cyfrwng Cymraeg**

Mae 100% o'r addysg yn Ysgol Bontnewydd yn cael ei ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a bydd hyn yn parhau.

Ar 83%, mae gan y Bontnewydd ar hyn o bryd un o'r poblogaethau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd, o gymharu â 65% o boblogaeth gyfartalog Gwynedd. Yn ôl Llywodraeth Cymru mae hyn yn gwneud Bontnewydd yn gymuned o arwyddocâd ieithyddol Cymraeg o arwyddocâd ieithyddol (h.y. cymunedau sydd â mwy na 70% o siaradwyr Cymraeg).

Bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth addysg a'r hwb cymunedol yn cefnogi polisi Llywodraeth Cymru - Cymraeg 2050 a'n hymrwymiad ein hunain i warchod a gwella statws Bontnewydd fel cymuned Gymraeg lewyrchus.

2.5 **Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae uned arsylwi ac asesu blynyddoedd cynnar (Uned ABC) wedi'i lleoli yn Ysgol Bontnewydd ar hyn o bryd. Mae canolfannau ABC yn rhoi cyfle i blant oed dosbarth Meithrin rhan amser gael eu harsylwi a'u hasesu mewn sefyllfaoedd grŵp bach. Mae hwn yn wasanaeth gwerthfawr ond mae'n lleihau ymhellach y lle sydd ar gael ar gyfer grwpiau ymyrraeth i ddysgwyr prif ffrwd.

Bydd yr adeilad newydd yn cynnig gofod dysgu a chyfleusterau hygyrch addas ar gyfer disgyblion o bob oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd dysgwyr yn elwa ar offer a chyfleusterau arbenigol sy'n addas ar gyfer ystod o anghenion, gyda'r nod o annog sgiliau iaith, hunanofal, corfforol a chymdeithasol plant o fewn amgylchedd diogel a naturiol.

2.6 **Urddas Mislif**

Bydd Cyngor Gwynedd yn sicrhau bod holl ddefnyddwyr y cyfleuster hwn yn gallu rheoli eu mislif mewn preifatrwydd, gydag urddas ac mewn ffordd iach. Byddwn yn parhau i wrthweithio'r tabŵ sy'n

ymwneud â mislif drwy sicrhau bod cyfleusterau priodol ar y safle, gan gynnwys toiledau unigol gyda basnau a chyfleusterau hylendid fydd yn agor yn uniongyrchol i'r coridor. Bydd cynnyrch mislif cynaliadwy ac ystod ehangach o opsiynau y gellir eu hailddefnyddio ar gael i ddysgwyr a'r gymuned ehangach.

2.7 **Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Asesiad Effaith Hawliau Plant**
Mae tegwch i bawb yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 rydym yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a pherthnasoedd da yn ein gweithgareddau. Cynhelir Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.

2.8 **Ymgysylltiad Ieuenctid**
Ar hyn o bryd, mae ein hymgynghoriad cymunedol wedi bod yn un anffurfiol. Mae grŵp ymgynghori wedi'i ffurfio gyda chynrychiolwyr o'r ysgol a'r gymuned gyda thrawstoriad o gynrychiolaeth oedran. Bydd y cynnig hwn yn ymateb i anghenion lleol ac yn creu teimlad cryf o berchnogaeth. Mae gan grwpiau lleol presennol strwythurau rheoli eisoes, ar gyfer y ganolfan gymunedol, y feithrinfa a'r clwb ieuenctid ac ati. Bydd y rhain yn rhan o'r prosiect ac yn cael eu hymgorffori ar gyfer rheoli'r cyfleuster yn y dyfodol.

Bydd y prosiect yn galluogi cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn effeithiol yng Nghymru ac yn ystod y cam dylunio bydd rhanddeiliaid allweddol yn cyfrannu eu syniadau i gwmpasu'r holl anghenion a gofynion addysgol. Bydd gan ystafelloedd dosbarth fynediad uniongyrchol i'r mannau dysgu awyr agored a byddant yn cynnwys mannau dysgu llai ar gyfer grwpiau ymneilltuo.

2.9 **Categori cyflwr perfformiad ysgol a thargedau yn dilyn prosiectau**
Bydd y prosiect hwn yn darparu cyfleusterau sy'n cefnogi canlyniadau rhagorol, darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth gyda chyfleusterau rhagorol ac amgylchedd addysgol ysbrydoledig.

# 3. Yr Amgylchedd Adeiledig

3.1 Y lleoliad a ffefrir yw safle presennol Ysgol Bontnewydd, a'r ganolfan gymunedol gyfagos sydd wedi ei lleoli yn adeilad gwreiddiol Fictoraidd yr ysgol. Mae wedi'i leoli'n ganolog yn y pentref, gan wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer teithio llesol a defnydd a chyfranogiad cymunedol. Bydd y cyfleusterau fydd ar gael i'r gymuned yn cynnwys:

- neuadd gymunedol
- cegin fasnachol a siop goffi
- banc bwyd
- ardal hamdden
- gwasanaethau gofal plant ac ieuenctid
- llogi gofod swyddfa ac ystafelloedd cyfarfod
- addysg i'r gymuned (Technoleg Gwybodaeth a gwersi Cymraeg)
- pwyntiau gwefru ceir
- llogi beiciau trydan
- gofodau clinig meddygol

3.2 Mae y tu allan i'r ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd (CNC) ac eithrio cornel fach ar ymyl y safle, a fwriedid ar gyfer cynefin, sydd â risg isel o lifogydd o'r afon. Mae gan y safle hwn sydd mewn lleoliad cyfleus fynediad gwastad o ganol y pentref ac mae eisoes mewn lleoliad da.

Mae cymuned Bontnewydd wedi'i thrawsnewid yn ddiweddar yn sgil agoriad y ffordd osgoi newydd. Mae'r gostyngiad sylweddol diweddar mewn traffig o ganlyniad i gwblhau'r ffordd osgoi newydd yn caniatáu gwelliannau yn y ddarpariaeth Teithio Llesol i'r safle sy'n cwrdd â gofynion Polisi Teithio Llesol yr Awdurdod. Gerllaw, mae prif lwybr bysiau ac mae datblygiadau tai diweddar wedi'u cysylltu â'r ysgol gan balmentydd. Bwriedir creu llwybr teithio llesol o gyfeiriad Caeathro tuag at Ysgol Bontnewydd gan fynd heibio mynedfa'r ysgol i gyfarfod Lôn Eifion (300 medr i ffwrdd) sef llwybr beicio 12.5 milltir oddi ar y ffordd gyda wyneb caled ardderchog o Gaernarfon i Bryncir. Bydd digon o ddarpariaeth ar gyfer storio beiciau a sgwteri a gosodir cymaint o bwyntiau gwefru cerbydau trydan â phosib yn y maes parcio cymunedol, gan ddefnyddio trydan a gynhyrchir ar y safle. Byddwn yn ymchwilio i gynllun ar gyfer gwefru a rhentu beiciau trydan i'w defnyddio ar lwybr beicio oddi ar y ffordd, sef Lôn Eifion.

3.3 Mae'r Cwricwlwm yng Nghymru wedi newid yn sylweddol, gan ddefnyddio dull trawsgwricwlaidd ac integredig, sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu'n gyfannol. Mewn ymateb i hyn, bydd gofodau o fewn yr ysgol newydd yn adlewyrchu'r angen am ddysgu amlweddog.

Mae'r lleoliad a ffefrir yn annog cyswllt â'r amgylchedd naturiol, gan ddylunio i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i ddefnyddio'r amgylchedd ac i'r mannau dysgu dan do gysylltu'n naturiol â'r amgylchedd allanol. Bydd y dyluniad yn ymateb i amgylchedd adeiledig y pentref a'r dirwedd amaethyddol gyfagos, gan greu adeilad sy'n cyfoethogi a darparu canolbwynt i'r pentref.

3.4 Byddwn yn gweithio gyda Safonau Adeiladu gyda Natur i roi blaenoriaeth i ddyluniad sy'n ymateb i'r hinsawdd, gan ddarparu amgylchedd gwell ar gyfer addysg a'r gymuned ehangach, gan wella iechyd, deilliannau addysgol a llesiant. Bydd dyluniad yr adeilad yn ystyried yr argymhellion yn y PAS 6463 newydd er mwyn gwneud gofodau cymunedol yn gynhwysol i bawb gan fynd i'r afael ag ystyriaethau dylunio synhwyraidd gan gynnwys goleuo, acwsteg, lloriau ac addurniadau. Byddwn yn defnyddio'r 12 egwyddor Adeiladu gyda Natur fel fframwaith cyfannol i lunio, llywio ac asesu datblygiad y prosiect hwn. Bydd y cylch bywyd carbon cyfan yn ganolog i ddyluniad yr adeilad, gan gynnwys cynnal a chadw ac ailosod yn y dyfodol.

3.5 Mae'r cynnig hwn yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau presennol, gan arbed popeth posib wrth ddymchwel y ddau adeilad gan ymgorffori deunyddiau lle bynnag y bo modd mewn cyfleuster modern ac arloesol.

Yn benodol, mae'r ysgol Fictoraidd yn cynnwys trawstiau pren sylweddol tra bod gan adeilad yr ysgol o'r 1970au drawstiau *glulam* yn y neuadd. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio fel nodweddion strwythurol canolog a nodedig yn yr adeilad newydd, gan ddangos sut mae'r carbon sydd wedi'i ymgorffori yn y gwaith adeiladu hwn wedi'i leihau i'r eithaf.

Byddwn yn dylunio ysgol heb elfennau strwythurol dur, gan ddod o hyd i bren strwythurol ychwanegol yng Nghymru, mor agos â phosib i'r safle. Bydd cerrig a llechi yn cael eu harbed o'r ysgol

wreiddiol a'u hymgorffori yn yr adeilad newydd. Fel hyn byddwn yn lleihau'n sylweddol y carbon a ymgorfforir yn yr adeilad, yn dathlu'r dreftadaeth leol ac yn pwysleisio'r defnydd o ddeunyddiau sydd nid yn unig yn sail i lawer o adeiladu lleol ond hefyd yn sylfaen i ddiwydiant a chyflogaeth leol.

3.6 Gan gyfeirio at ddiwydiant lleol amlwg arall, byddwn yn gwneud y defnydd gorau o wlân defaid lleol, naturiol fel inswleiddiad yn waliau a tho'r adeilad, gan gyflawni'r priodweddau inswleiddio sydd eu hangen er mwyn i'r adeilad fod yn ddi-garbon yn ei weithrediad. Gwneir y mwyaf o gynhyrchu a storio trydan gyda'r cyfleuster yn sero net yn ei weithrediad. Bydd yr arwynebedd mwyaf posib o baneli solar ar y to yn cael ei gefnogi gan system fatri i wneud y defnydd gorau posib ohono ar y safle. Bydd y trydan sydd dros ben yn gwasanaethu gwefru cerbydau trydan ar gyfer y gymuned. Gydag afon Gwyrfai ar y terfyn, byddwn yn archwilio'r potensial i gynhyrchu trydan dŵr. Bydd hyn yn gofyn am astudiaethau i sefydlu'r potensial ar gyfer cynhyrchu realistig. Fel isafswm byddwn yn gosod cyfleuster ar gyfer ei werth addysgol fel rhan o arddangosiad a dathliad ehangach o nodweddion di-garbon y prosiect.

3.7 Bydd y gwresogi yn defnyddio pympiau gwres o ffynonellau daear a gwresogi goddefol. Byddwn yn archwilio'r posibiliadau a gynigir gan afon Gwyrfai gerllaw ar gyfer pympiau gwres o ffynonellau dŵr.

3.8 Bydd nodweddion ar gyfer cadw, ailddefnyddio a rheoli dŵr yn rhan o'r dyluniad, gan wneud y mwyaf o botensial y cyfleusterau hyn i gyfoethogi bywyd gwyllt mewn cynefin. Bydd ffiniau'r safle yn ffurfio coridorau naturiol o rywogaethau brodorol. Bydd cadwraeth dŵr yn nodwedd o'r dyluniad a bydd SDCau yn cael eu hymgorffori yn y cynefin, megis gerddi glaw a blychau plannu. Bydd nodweddion addysgol SDCau gan gynnwys tyrbinau dŵr bach, cadwyni glaw a phibellau tryloyw yn weledol cyn bwydo i mewn i erddi glaw. Bydd ffiniau'r safle newydd yn ffurfio coridorau naturiol o rywogaethau brodorol.

3.9 Ar hyn o bryd, mae dŵr arwyneb presennol yn gollwng heb reolaeth i afon Gwyrfai. Bydd tanc arafu dŵr storm o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu yn casglu ac yn storio dŵr arwyneb sydd dros ben. Byddai system SDCau sy'n cynnwys arwynebau athraidd yn lliniaru risgiau llifogydd presennol i lawr yr afon sy'n effeithio ar y gymuned leol.

## 4. Achos Economaidd

**4.1 Amcanion Buddsoddi**

Roedd yr ymgynghoriad cychwynnol yn cynnwys cyfarfod â Chyngor yr Ysgol a'r Corff Llywodraethu. Mae Bwrdd Rheoli Prosiect a Rhaglen wedi'i sefydlu.

Cytunwyd ar yr **amcanion buddsoddi** cychwynnol a ganlyn:

1. **Sicrhau digon o le ar gyfer y niferoedd a ragwelir yn y dalgylch yn y dyfodol.**
2. **Gwella cyflwr ac addasrwydd cyfleusterau addysgol a chymunedol.**
3. **Galluogi staff addysgu i gyflwyno addysg cyfrwng Cymraeg o'r safon uchaf drwy ddarparu adnoddau sy'n diwallu anghenion y Cwricwlwm Newydd i Gymru ar gyfer y presennol a'r dyfodol.**

4. **Darparu cyfleusterau ysgol a chymuned integredig, sy'n hygyrch i bawb waeth beth fo'u hoedran a/neu anabledd, o fis Medi 2025.**
5. **Darparu gofal plant cofleidiol modern i deuluoedd o fis Medi 2025.**
6. **Annog teithio llesol i'r ysgol, gan sicrhau bod y rhan fwyaf o blant yn gallu cerdded neu feicio i'r ysgol.**
7. **Creu prosiect sy'n batrwm ar gyfer lleihau cylch bywyd carbon yr adeilad o ran ei garbon corfforedig a'i ôl troed carbon yn ei weithrediad.**
8. **Dylunio ac adeiladu cyfleusterau sydd wedi'u hintegreiddio â'r amgylchedd lleol, gan wneud y mwyaf o'r cysylltiad gyda natur, gyda'r amgylchedd lleol a gyda'r deunyddiau naturiol a hanes adeiledig a diwydiannol y lleoliad.**
9. **Sicrhau bod y prosiect yn bodloni safonau uchel o gynaliadwyedd adeiladu a'i fod yn darparu gwerth gorau.**

### 4.2 Ffactorau Llwyddiant Hanfodol

Cafodd y **Ffactorau Llwyddiant Hanfodol** a ganlyn eu nodi:

- **FfLlH1: Anghenion Busnes**
  Mae'r opsiwn yn bodloni anghenion yr Awdurdod ar hyn o bryd ac yn y dyfodol fel y'u nodir yn yr Amcanion Buddsoddi.
- **FfLlH2: Addasrwydd Strategol**
  Mae'r opsiwn yn darparu synergedd gyda'r blaenoriaethau a nodir o fewn polisi cenedlaethol a strategaethau lleol ac ateb tymor hir sy'n gwireddu'r weledigaeth ar gyfer yr ardal.
- **FfLlH3: Gwneud y Gorau o Fuddion**
  Mae'r opsiwn yn darparu'r ateb amgylcheddol gorau posib dros y tymor canolig a hir.
- **FfLlH4: Posibilrwydd Cyflawni**
  Mae gan yr Awdurdod yr adnoddau, y gallu a'r arbenigedd i gyflawni'r opsiwn o fewn yr amserlen ariannu a'r fanyleb y cytunwyd arnynt, gyda chyfranogiad ac ymrwymiad rhanddeiliaid.
- **FfLlH5: Capasiti a Gallu Cyflenwyr**
  Mae gan yr Awdurdod y gallu i gaffael y gwasanaethau ac ymarferoldeb busnes angenrheidiol i ddarparu'r opsiwn.
- **FfLlH6: Fforddiadwyedd Posib**
  Gall yr Awdurdod ariannu'r lefel ofynnol o wariant refeniw.

## 4.3 Opsiynau Sgopio

Rhoddodd y Grŵp Llywio ystyriaeth i'r opsiynau sgopio a ganlyn:

- **Y 'status quo' -** Parhau â'r ddarpariaeth bresennol yn yr ardal.
- **Isafswm sgôp -** Ymestyn Ysgol Bontnewydd i sicrhau digon o gapasiti ar gyfer twf y boblogaeth.
- **Y sgôp ganolraddol** - Darparu mwy o gapasiti addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal i 250 o leoedd ynghyd â darpariaeth cyn-ysgol.
- **Uchafswm sgôp -** Darparu mwy o gapasiti addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal i 315 o leoedd ynghyd â rhoi darpariaeth cyn-ysgol / cyfleusterau cymunedol.

**Dadansoddiad Cryno o Fanteision ac Anfanteision yr Opsiynau Sgopio**

| Opsiwn Sgopio | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| Status Quo | - Yn dileu'r gofyn am fuddsoddiad cyfalaf yn y tymor byr. | - Dim gwelliant yn nifer y lleoedd ysgol yn yr ardal.<br>- Dim gwelliant yng nghyflwr ac addasrwydd adeiladau addysg. |
| Isafswm sgôp | - Angen llai o fuddsoddiad cyfalaf i fynd i'r afael â materion hysbys ynglŷn â'r adeilad. | - Nid yw'r capasiti presennol yn ddigonol i fodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal hon.<br>- Mae adeiladau addysgol anaddas yn parhau ar y safle. |
| Y sgôp ganolraddol | - Buddsoddiad yn cael ei wneud i sicrhau digon o leoedd ysgol yn yr ardal yn y tymor byr.<br>- Yn cael gwared ar adeilad Categori C o ystâd yr Awdurdod.<br>- Posibilrwydd o alluogi cael gwared ar leoedd gweigion yn yr ardal. | - Nid yw'r cynnydd mewn lleoedd yn ddigonol i fodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal hon yn y tymor hir.<br>- Efallai y bydd angen datblygiadau pellach o hyd. |
| Uchafswm sgôp | - Buddsoddiad yn cael ei wneud i sicrhau digon o leoedd ysgol yn yr ardal a bydd yn bodloni'r galw yn y tymor canolig i hir.<br>- Yn cael gwared ar adeilad Categori C o ystâd yr Awdurdod. | - Diffyg argaeledd safleoedd addas. |

## 4.4 Ateb a Darparu Gwasanaeth

Ystyriodd y Grŵp Llywio amrywiaeth o atebion o ran gwasanaeth, a amlinellwyd fel rhestr hir o 8 opsiwn yn erbyn yr Amcanion Buddsoddi a'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol y cytunwyd arnynt. Dangosir y dadansoddiad cryno yn y tabl isod.

| | DADANSODDIAD CRYNO | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcanion Buddsoddi | | | | | | | | | FfLlH | | | | | |
| **Opsiynau** | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| Opsiwn 1. | x | x | x | ? | √ | √ | x | x | ? | x | x | x | x | x | x |
| Opsiwn 2. | √ | √ | √ | ? | √ | ? | √ | √ | √ | √ | ? | √ | X | √ | √ |
| **Opsiwn 3.** | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ |
| Opsiwn 4. | √ | √ | √ | ? | √ | √ | ? | ? | √ | ? | ? | ? | ? | √ | ? |
| Opsiwn 5. | ? | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | ? | ? | x | x | √ | √ | ? |
| Opsiwn 6. | x | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | x | x | x | x | ? | ? | ? |
| Opsiwn 7. | √ | √ | √ | ? | √ | X | √ | √ | ? | √ | ? | √ | X | ? | X |
| **Opsiwn 8.** | ? | ? | ? | x | √ | √ | x | x | x | x | ? | ? | x | x | x |

Tabl 1. Dadansoddiad Cryno o'r Opsiynau yn erbyn y FfLlH a'r Amcanion Buddsoddi

Nodir trosolwg o fanteision ac anfanteision y rhestr hir o opsiynau a amlinellwyd yn erbyn yr Amcanion Buddsoddi a'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol y cytunwyd arnynt, yn y tabl a ganlyn.

| Opsiynau | Manteision / Anfanteision |
|---|---|
| **Opsiwn 1:**<br><br>Status Quo. Gwneud Dim | • Nid yw'n diwallu Amcanion Buddsoddi.<br>• Nid yw'n diwallu FfLlH. |
| **Opsiwn 2:**<br><br>Adeiladu ysgol newydd i'r dalgylch. Cau'r 4 ysgol agosaf (+ Ysgol Bontnewydd). Sefydlu ysgol newydd ar gyfer y dalgylch. Capasiti 450+<br><br>Ymgorffori hwb cymunedol newydd yn yr adeilad newydd.<br><br>Cynyddu cerdded i'r ysgol i'r eithaf.<br><br>Cynyddu cyfleustra i'r gymuned i'r eithaf. | • Yn diwallu Amcanion Buddsoddi, yn creu capasiti mewn ysgol lle mae gormod o ddisgyblion ac yn lleihau lleoedd gweigion.<br>• Yn cael gwared ar adeilad Categori C. Yn disodli adeilad nad yw'n addas ar hyn o bryd gyda chyfleusterau modern.<br>• Yn werth da am arian.<br><br>• Tebygolrwydd isel o gael ei gyflawni oherwydd diffyg safleoedd ac amserlenni cyllido o fewn yr amserlen arfaethedig.<br>• Annhebygol o dderbyn cefnogaeth leol a gwleidyddol. |
| **Opsiwn 3:**<br><br>Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Bontnewydd a chynyddu capasiti o 208 (gan gynnwys Meithrin) i 315. Byddai hyn yn cynnwys lleoedd i blant ychwanegol o Dinas a Llanwnda. (Datblygiadau tai Gwel y Foel a Chae Capel.) Ymgorffori hwb cymunedol newydd yn yr adeilad newydd.<br><br>*Dymchwel y neuadd gymunedol bresennol ar safle'r ysgol i gynyddu arwynebedd y safle.<br><br>**FFEFRIR** | • Yn diwallu Amcanion Buddsoddi, yn creu capasiti mewn ysgol lle mae gormod o ddisgyblion ac yn lleihau lleoedd gweigion.<br>• Yn cael gwared ar adeilad Categori C. Yn disodli adeilad nad yw'n addas ar hyn o bryd gyda chyfleusterau modern.<br>• Yn gwneud y mwyaf o ddefnydd cymunedol ac yn lleihau teithio.<br>• Yn werth da am arian. |
| **Opsiwn 4:**<br><br>Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Bontnewydd a chynyddu capasiti o 208 (gan gynnwys Meithrin) i 315. Byddai hyn yn cynnwys lleoedd i blant ychwanegol o Dinas a Llanwnda. (Datblygiadau tai Gwel y Foel a Chae Capel.) | • Yn creu capasiti mewn ysgol lle mae gormod o ddisgyblion ac yn lleihau lleoedd gweigion.<br><br>• Nid yw'n bodloni'r meini prawf cymunedol o fewn brîff y prosiect.<br>• Dim cynnydd yn arwynebedd y safle.<br>• Cyfleusterau cymunedol presennol i aros ar y safle heb fuddsoddiad. |

| | |
|---|---|
| *Cadw'r neuadd gymunedol bresennol ar safle'r ysgol. | • Nid yw'n caniatáu ail-ddylunio mynedfa, allanfa a chyfleusterau parcio ac nid yw'n sicrhau'r diogelwch eithaf ar gyfer y plant. |
| **Opsiwn 5:**<br><br>Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Bontnewydd a chynyddu capasiti o 208 (gan gynnwys Meithrin) i 250.<br><br>Ymgorffori hwb cymunedol newydd yn yr adeilad newydd. | • Yn diwallu'r rhan fwyaf o Amcanion Buddsoddi.<br>• Yn cael gwared ar adeilad Categori C. Yn disodli adeilad nad yw'n addas ar hyn o bryd gyda chyfleusterau modern.<br>• Nid dyma'r opsiwn gwerth gorau am arian.<br><br>• Annhebygol o allu cwrdd â'r cynnydd posib yn nifer y disgyblion yn y dalgylch. |
| **Opsiwn 6:**<br><br>Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Bontnewydd heb newid y capasiti o 208 (gan gynnwys Meithrin).<br><br>Ymgorffori hwb cymunedol newydd yn yr adeilad newydd. | • Yn diwallu'r rhan fwyaf o Amcanion Buddsoddi.<br><br>• Nid dyma'r opsiwn gwerth gorau am arian.<br>• Nid yw'n bodloni anghenion yr Awdurdod ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. |
| **Opsiwn 7:**<br><br>Un ysgol dysgu gydol oes yn nalgylch Ysgol Syr Hugh Owen. Cau pob ysgol gynradd ac uwchradd bresennol.<br><br>Ymgorffori hwb cymunedol newydd yn yr adeilad newydd. | • Yn diwallu pob Amcan Buddsoddi.<br><br>• Byddai'n cynrychioli'r ysgol pob oed fwyaf yn yr Awdurdod o bell ffordd a byddai'n her sylweddol i un sefydliad gyflawni hyn yn llwyddiannus.<br>• Amhosib ei gyflawni oherwydd diffyg safleoedd sydd ar gael ac amserlenni cyllido o fewn Band A.<br>• Annhebygol o dderbyn cefnogaeth leol a gwleidyddol.<br>• Ni fyddai gofynion ymgynghori yn cwrdd ag amserlen y prosiect.<br>• Cynyddu ôl-troed carbon. |
| **Opsiwn 8:**<br><br>Ymestyn Ysgol Bontnewydd i sicrhau digon o gapasiti ar gyfer twf y boblogaeth. | • Nid yw’n diwallu pob Amcan Buddsoddi.<br>• Nid yw'n bodloni anghenion yr Awdurdod ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.<br>• Y safle o bosib yn anaddas ar gyfer ehangu i gynyddu capasiti.<br>• Nid dyma'r opsiwn gwerth gorau am arian.<br>• Dim digon o le i gynnwys hwb cymunedol.<br>• Gosodiad ac addasrwydd yr adeilad presennol yn parhau yn anaddas. |

**Rhestr Fer**

Nododd y Grŵp Llywio restr fer o 4 opsiwn ar gyfer trafodaeth bellach a nodwyd yn y tabl dadansoddiad cryno uchod. Dyma'r rhestr fer o opsiynau a ffefrir (ynghyd â'r opsiwn 'status quo') sydd fwyaf addas i fodloni holl ofynion y prosiect.

| Opsiynau | Disgrifiad |
|---|---|
| **Opsiwn 1** | • Cynnal y 'status quo'.<br>• Gweithredu cynlluniau cynnal a chadw ar gyfer y dalgylch.<br>• Parhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ar y lefel capasiti presennol o 208 o leoedd (gan gynnwys meithrin) ar y safle presennol. |
| **Opsiwn 3**<br><br>***FFEFRIR*** | • Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Bontnewydd a chynyddu capasiti o 208 (gan gynnwys Meithrin) i 315.<br>• Adeilad newydd gyda Chyfleuster Blynyddoedd Cynnar integredig modern a darpariaeth Hwb Cymunedol / Aml-asiantaeth.<br>• Dymchwel y neuadd gymunedol bresennol ar safle'r ysgol i gynyddu arwynebedd y safle. |
| **Opsiwn 4** | • Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Bontnewydd a chynyddu capasiti o 208 (gan gynnwys Meithrin) i 315.<br>• Cadw'r neuadd gymunedol bresennol ar safle'r ysgol. |
| **Opsiwn 5** | • Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Bontnewydd a chynyddu capasiti o 208 (gan gynnwys Meithrin) i 250.<br>• Adeilad newydd gyda Chyfleuster Blynyddoedd Cynnar integredig modern a darpariaeth Hwb Cymunedol / Aml-asiantaeth.<br>• Ffordd ymlaen llai uchelgeisiol.<br>• Darpariaeth gwasanaeth cymysg. |

Wedi cymharu canlyniadau'r gwerthusiad cryno, adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Bontnewydd a chynyddu'r capasiti i 315, gan gynnwys cyfleusterau cymunedol (Opsiwn 3) yw'r opsiwn gorau gan ei fod yn cyflawni'r holl amcanion buddsoddi a'r ffactorau llwyddiant hanfodol. Trwy sicrhau bod capasiti'r ysgol yn ddigonol, mae hyn yn dileu'r risg o fod angen buddsoddi ymhellach ar y safle hwn pan fydd datblygiadau tai yn yr ardal yn achosi twf pellach yn nifer y disgyblion yn yr ysgol.

***D.S. Gellir gweld costau economaidd dangosol yr opsiynau ar y rhestr fer yn Atodiad B a byddant yn cael eu dadansoddi'n fanwl fel rhan o'r Achos Busnes Amlinellol.***

4.5 Templed Budd Meintiol

Gweler **Atodiad B** am Dabl Buddion y Rhaglen.

## 5. Achos Masnachol

### 5.1 Caffael

Bydd y tîm dylunio yn cael ei benodi drwy Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC). Bydd gwasanaethau eraill yn cael eu caffael yn unol â Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod.

Bydd y prif gontractwr yn cael ei benodi ar sail Ymwneud Cynnar gan Gontractwr, trwy Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru, gan roi prisiau tendro i gymryd rhan yn y broses ddylunio, gwaith rhagarweiniol, ac ar gyfer gorbenion ac elw ar y contract adeiladu. Contract JCT (Tribiwnlys Contractau ar y Cyd) gyda meintiau fydd hwn, ar sail cyfrifon agored. Rydym wedi defnyddio’r dull hwn yn llwyddiannus gan ddefnyddio profiad y contractwr a’i gadwyn gyflenwi drwy’r broses ddylunio. Bydd gan y contractwr a benodir yr opsiwn o symud ymlaen i'r Cyfnod Adeiladu ar sail pris y cytunwyd arno. Os na fanteisir ar hyn, bydd y Bil Meintiau yn cael ei dendro ar Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru.

### 5.2 Cyfrif Banc y Prosiect

Bydd Gwynedd yn gweithredu'r Polisi Cyfrif Banc Prosiect. Bydd y tendr ar gyfer y prif gontractwr yn cynnwys y gofyniad i'r contractwr sefydlu Cyfrif Banc y Prosiect.

### 5.3 Buddion Cymunedol

Bydd gofyniad ar gyfer Buddion Cymunedol, Craidd a Di-graidd, yn cael ei gynnwys yn y broses dendro, yn unol â thargedau Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru. Bydd buddion craidd yn cael eu cynnwys yn y contract a bydd buddion di-graidd yn cael eu trafod a'u negodi gyda'r contractwr. Y meysydd a dargedir yn benodol yw llafur a chyflenwad lleol, hyfforddiant, prentisiaethau ac ymgysylltu ag ysgolion. Bydd Canllawiau Budd Cymunedol Llywodraeth Cymru a thargedau’r Fframwaith yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer asesu’r cynigion tendro a bydd yr Offeryn Mesur yn cael ei ddefnyddio ar gyfer adrodd.

# 6. Achos Ariannol

Gweler rhagolwg ariannol y prosiect isod:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol, GIFA arfaethedig (315 o blant) | | 1,758 | metr sgwâr |
| 1 dosbarth ADY ac ystafell grŵp. | | 72 | |
| Blynyddoedd Cynnar (Cylch Meithrin) | | 123 | |
| Cyfleusterau cymunedol, gan gynnwys swyddfa, toiledau, ystafell gwasanaethau a rennir ac ati | | 300 | metr sgwâr |
| Cyfanswm GIFA | | 2,253 | metr sgwâr |
| Sail cost. *Pris tendro Ysgol Treferthyr ac eithrio elfennau anarferol (Medi 2022) | £ | [redacted] | /metr sgwâr |
| **<u>Cost Adeiladu</u>** | | | |
| Amcangyfrif cost adeiladu | £ | [redacted] | |
| Ffioedd, arolygon, costau cam dylunio eraill, rheoli prosiect | £ | [redacted] | |
| Gosod dodrefn rhydd a sgriniau rhyngweithiol | £ | [redacted] | |
| **<u>Elfennau anarferol</u>** | | | |
| Cyfleusterau ysgol a chymunedol dros dro yn ystod y gwaith adeiladu | £ | [redacted] | |
| Cynhyrchu ynni ychwanegol a mesurau cadwraeth | £ | [redacted] | |
| Dymchwel, arbed deunydd ac elfennau strwythurol ychwanegol ar gyfer adeiladu gyda llai o garbon corfforedig | £ | [redacted] | |
| **Is-gyfanswm** | £ | [redacted] | |
| Wrth Gefn | £ | [redacted] | |
| **CYFANSWM** | **£** | [redacted] | |

Gweler **Atodiad C** am y Rhagolwg Cyllidol. Wrth sefydlu ysgol a hwb cymunedol newydd i Ysgol Bontnewydd a'r posibilrwydd o drosglwyddo disgyblion o ysgolion cyfagos, amcangyfrifir y bydd y cynllun yn arwain at arbedion refeniw parhaol o o leiaf £[redacted] o gymharu â'r sefyllfa bresennol.

## 7. Achos Rheoli

### 7.1 Trefniadau Rheoli'r Prosiect

Mae gan Gyngor Gwynedd dîm penodol sy'n rheoli prosiectau adeiladu, gyda staff sydd wedi rheoli cyfres o brosiectau cyffelyb. Bydd Rheoli Prosiect yn seiliedig ar fethodoleg PRINCE2 gyda staff penodol ar gyfer rheoli prosiect, swyddogion technegol a Bwrdd Prosiect profiadol a oruchwylir gan Fwrdd Rhaglen.

Mae'r Bwrdd Prosiect yn adrodd i'r Bwrdd Rhaglen ar gynnydd y prosiect ac ar risgiau neu faterion uwch. Mae'r Bwrdd Rhaglen yn gyfrifol am bob prosiect sy'n rhan o'r Rhaglen Ysgolion, ac am brosiectau addysgol perthnasol eraill.

Mae gennym gofrestr o wersi a ddysgwyd yn ei lle ers tro i'w defnyddio a chedwir dogfennau rheoli prosiect eraill, yn enwedig cofrestr risg sy'n cael ei chynnal, ei monitro'n rheolaidd a'i hadolygu yng nghyfarfodydd y Bwrdd Prosiect i sicrhau bod materion perthnasol yn cael eu nodi a bod camau'n cael eu cymryd yn ôl yr angen.

Bydd cynlluniau wrth gefn perthnasol yn sicrhau bod effaith unrhyw risgiau (yn ymwneud â llithriadau yn yr amserlenni, ansawdd, sgôp, a gwirio'r buddion) yn cael ei lleihau. Mae'r Bwrdd Prosiect yn cytuno ar y camau angenrheidiol i weithredu cynlluniau wrth gefn a chyllidebau cysylltiedig. Mae cynllun y prosiect yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd i sicrhau bod cynnydd yn y pecyn gwaith yn cael ei nodi a bod cerrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni.

Bydd y prosiect hwn yn cynnwys arbenigwyr o adrannau eraill y Cyngor, yn enwedig yr Uned Arbed Ynni, yr Uned Newid Hinsawdd, y Swyddog Bioamrywiaeth a staff technegol fydd yn cyfrannu at y broses ddylunio a byddem yn caffael panel o gynghorwyr arbennig sy'n cynnwys swyddogion proffesiynol sydd wedi dylunio a gweithredu prosiectau ynni cymunedol ar raddfa fach.